CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 20, 2026 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanfachreth.cymru

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau: Peredur, Delyth.

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 15, 2026

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 15, 2026

Eitem 8.c. Llythyr (22/9/2026) oddi wrth ein twrnai, Breese Gwyndaf, yn amgau dogfen 'Legal Charge' sydd angen ei arwyddo. Mae'n gofyn pwy sy'n arferol yn llofnodi gweithredoedd ar ran y Cyngor Cymuned; ai'r Cadeirydd? Hefyd mae'n gofyn am wybodaeth ymwneud â threuliau a chyflwr yr adeilad – derbyniwyd y wybodaeth gan Gerallt.

Anfonwyd llythyr (24/9/2026) i'r aelodau yn gofyn am un ohonynt ddefnyddio ei smartphone i'r twrnai anfon gwybodaeth i ddechrau'r broses o 'verification' h.y. dogfennau ID. Mae hyn oherwydd nid oes gan y Clerc smartphone. Cytunodd Robin i ddefnyddio ei smartphone.

Anfonwyd llythyr (25/9/2026) i Breese Gwyndaf yn rhoi y wybodaeth roedd ei angen.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/9/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith amnewid camfa ddiffygiol a thorri 250m o llystyfiant ar Lwybr 39, Ystumgwadnaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (25/9/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal trwy Zoom ar 13/10/2026 am 7.00y.h. Amgáu mae Agenda, Cofnodion 15/7/2026 a newyddion Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Materion Ariannol

b. Llythyr (25/9/2026) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gyda Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol. O'r adroddiad mae taliad £156 yn orfodol i bob aelod Cyngor Cymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Balans yn y banc ar 29/9/2026: £12,518.13.

9. Archwilio

a. Anfonwyd llythyr (21/9/2026) i Archwilio Cymru yn rhoi gwybod iddynt nid ydym wedi cael adroddiad ganddynt.

10. Materion yr Aelodau

a. Dymuna'r Clerc cofnodi ei ddiolch i'r diweddar Huw Antur am ei gymorth i gwblhau ffurflen cais am grant oedd ar gael gan Gronfa Gwynedd Ni. Roedd y grant am hysbysfyrddau a meinciau yn y flwyddyn 2025–2026.

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Y rheswm ni fydd Delyth yn y cyfarfod mae hi'n cynrychioli Cyngor Gwynedd yn gwasanaeth coffa 60 mlynedd trychineb Aberfan.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc